# Bwrdd Cynghori Cenedlaethol AGC – 8 Chwefror 2023

**Agenda**

| | |
|---|---|
| Croeso ac Ymddiheuriadau | Cadeirydd |
| Effaith a chwmpas y Prosiect Gofal Plant a Chwarae | Kevin Barker |
| Anelu at Raddau | Sarah Glynn-Jones |
| Cod Ymarfer Diwygiedig ar gyfer y Tîm Awdurdodau Lleol | Lou Bushell-Bauers |
| EGWYL | |
| Blaenoriaethau a chynnydd y Cynllun Strategol | Margaret Rooney |
| Lleisiau'r Sector | Pawb |
| Sylwadau i gau | Cadeirydd |
| Gorffen | |

**Cyfarfodydd I ddod:**

- Dydd Iau, 8 Mehefin 2023
- Dydd Mercher, 4 Hydref 2023
- Dydd Mercher, 7 Chwefror 2024

# Bwrdd Cynghori Cenedlaethol AGC – cofnodion cyfarfod

## Croeso ac ymddiheuriadau

Y sawl a oedd yn bresennol

- Ruth Hussey
- Orlaith Brennan
- Melanie Davies
- Stuart Davies
- Natalie Fletcher
- Rachel Harris
- Carole (Cari) Jones
- Beth Kay
- Peter Max
- Julia Nawell
- Claire Protheroe
- Jenny Williams (ymunodd am 11:00)
- Sharon Williams
- Mary Wimbury

Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

Cynrychiolwyr AGC

- Louise Armstrong-Rodgers
- Gillian Baranski
- Kevin Barker
- Lou Bushell-Bauers
- Hayley Parker
- Vicky Poole

Ymddiheuriadau

- Valerie Billingham
- Beth Flowers
- Melanie Davies
- Simon Hatch
- Margaret Rooney
- Myfanwy Moran

**Penderfyniad**: Cymeradwyodd aelodau'r Bwrdd y cofnodion o 25 Hydref 2022

## Camau gweithredu o'r cofnodion blaenorol – 25 Hydref 2022:

- **Trafod adroddiadau 'hawdd eu deall' â thîm Cyfathrebu AGC ar gyfer adroddiadau blynyddol y Prif Arolygydd yn y dyfodol.**
  Bydd fersiwn hawdd ei deall o Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd yn cael ei chynnwys yn y gwaith cynllunio ar gyfer cyhoeddi'r adroddiad o 2023 ymlaen.

  **Cam gweithredu blaenorol:** Margaret Rooney i sicrhau bod AGC yn gofyn i'r bobl gywir gwblhau eitemau drwy AGC Ar-lein.

  Cadarnhaodd Margaret Rooney fod y bobl gywir yn cael eu gofyn i gwblhau AGC Ar-lein yn unol â'r ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, mae AGC yn treialu ffordd o roi'r gallu i ddeiliaid cyfrifon eraill wneud newidiadau fel rhan o ddatganiad blynyddol eleni. Yn dilyn hyn bydd AGC yn ystyried pa mor dda y mae hynny wedi gweithio ac a ddylem ei ehangu.

- Mae **proffiliau un tudalen yr aelodau** wedi cael eu cyhoeddi ar wefan AGC. Mae nifer bach o broffiliau ar goll o hyd. Gofynnodd y Cadeirydd i bob aelod ddarparu eu proffiliau.
  **Cam gweithredu** – Yr Ysgrifenyddiaeth i gysylltu â'r aelodau i gael gafael ar y proffiliau sydd ar goll.

- **Cyhoeddi agenda a nodiadau'r Bwrdd Cynghori Cenedlaethol ar wefan AGC.**

  Cwestiwn ar gyfer aelodau'r Bwrdd Cynghori Cenedlaethol.

Cwestiynau Barn:

1. Ydych chi am i agenda'r Bwrdd Cynghori Cenedlaethol gael ei chyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Cymru?

   Canlyniad - Ydw – 100%. Nac ydw 0% - cyflwynwyd 14 pleidlais

2. Ydych chi am i nodiadau cyfarfod y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol gael eu cyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Cymru?

   Canlyniad - Ydw – 100%. Nac ydw 0% - cyflwynwyd 14 pleidlais

Bydd angen cytuno ar y nodiadau a'u cymeradwyo'n ffurfiol cyn iddynt allu cael eu cyhoeddi.

**Cam gweithredu** – Y Cadeirydd i gytuno ar amserlen ar gyfer cwblhau'r nodiadau â'r ysgrifenyddiaeth.

## Cefnogi gwelliannau ac arloesi

Un o egwyddorion canllaw AGC yw: *Cefnogi gwelliannau ac arloesi: byddwn yn defnyddio ein gwybodaeth a'n pwerau i gefnogi gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant i wella ac i annog ffyrdd newydd o weithio.*

Rhoddodd adran nesaf yr agenda syniad i aelodau'r Bwrdd Cynghori Cenedlaethol o rywfaint o'r gwaith sy'n mynd rhagddo yn AGC ar hyn o bryd i gefnogi gwelliannau yn y sectorau rydym yn eu rheoleiddio a'u harolygu.

## Effaith a chwmpas y Prosiect Gofal Plant a Chwarae:

Amlinellodd Kevin Barker, Pennaeth y Tîm Gofal Plant a Chwarae effaith a chwmpas y Prosiect Gofal Plant a Chwarae, gan nodi'r materion y mae'n anelu at ymdrin â nhw.

- A yw effaith AGC yn gwella'r sefyllfa i blant?
- A gaiff y camau a roddir ar waith eu cynnal – a yw AGC yn annog gwasanaethau i gynnal gwelliannau?
- Mae gan 15% o wasanaethau un radd “gwael” neu fwy – sy'n golygu bod y llwybr gorfodi ar gyfer achosion o ddiffyg cydymffurfio yn cael ei roi ar waith.
- Mae gan 10-20% bedair gradd “rhagorol”.
- Mae gan 65% raddau “Da”.
- Gofynnodd Kevin “A allem wneud mwy i annog graddau da a rhagorol?" ac atebodd y cwestiwn. **Gallem**

Myfyrdodau gan Kevin:

- Ni allwn barhau i gymryd yr un camau a disgwyl cael canlyniadau gwahanol.
- Mae gwersi wedi cael eu dysgu o'r gwaith a wnaed yn ystod y pandemig.

- Cafwyd adborth cadarnhaol gan wasanaethau am y galwadau dal i fyny yn ystod y pandemig.

Yna cafwyd trafodaeth fywiog a oedd yn cynnwys cwestiynau gan y Bwrdd:

C – Os bydd y prosiect hwn yn llwyddiannus, a fydd yn cael ei roi ar waith ar draws sectorau gwasanaeth eraill?
A – Prosiect peilot ydyw a byddwn yn ei ddefnyddio i lywio meysydd eraill o'n gwaith

C – A fydd arferion gorau yn cael eu rhannu mewn cyfarfodydd ac ar wefannau?
A – Rydym yn cydnabod y gwerth sylweddol i wasanaethau pan fyddant yn dysgu gan eraill ac yn rhannu gydag eraill. Bydd Rheolwr y Prosiect yn arwain ac yn ffurfioli hyn.

Awgrymodd y bwrdd y byddai trefniadau fel digwyddiad blynyddol yn cynnwys rhieni a phlant yn fuddiol.

## Anelu at Raddau

Rhoddodd Louise Armstrong-Rogers, Uwch-reolwr y Gwasanaethau Oedolion, ddiweddariad ar ein cynnydd mewn perthynas â'r graddau ar gyfer cartrefi gofal / gwasanaethau cymorth cartref.

- Byddwn yn rhoi graddau ar gyfer pob un o'r pedair thema arolygu; ni fydd gradd gyffredinol.
- Ni fydd graddau cyfnod peilot yn cael eu cyhoeddi a dim ond y darparwr fydd yn cael ei gynghori.

Cwestiynau gan y bwrdd yn dilyn y cyflwyniad:

C – Ai dim ond yr arolygydd fydd yn cadarnhau'r radd?
A – Bydd y graddau yn cael eu trafod â'r Rheolwr Tîm

C – A all aelodau o'r cyhoedd ofyn am y graddau?
A – Ni fydd AGC yn darparu graddau cyfrinachol i aelodau o'r cyhoedd.

Mynegodd aelodau'r bwrdd bryderon am effaith graddau anghyson ym mhob rhan o AGC a'r ffaith na ellir apelio'r graddau.

## Cod Ymarfer Diwygiedig ar gyfer y Tîm Awdurdodau Lleol a fersiwn newydd o'r llythyr

Rhoddodd Lou Bushell-Bauers, Pennaeth y Tîm Awdurdodau Lleol, ddiweddariad ar y cod ymarfer diwygiedig ar gyfer y Tîm Awdurdodau Lleol a chyflwynodd fersiwn newydd o'r llythyr.

Diben:

- Mae'r Cod Ymarfer yn nodi dull AGC o adolygu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yng Nghymru drwy ein gweithgarwch adolygu perfformiad.
- Mae'r Cod yn ofyniad o dan adran 161A o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- Er mwyn amlygu arferion da, bod yn seiliedig ar gryfderau ac yn cael eu cymell gan guddwybodaeth.

Roedd gan y bwrdd y sylwadau canlynol.
- Nodwyd bod gwahaniaeth rhwng ymgynghori a chydgynhyrchu, mae cwestiynau agored yn rhan hanfodol o'r broses.
- Gall Awdurdodau Lleol wneud pethau'n wahanol – nid ymdrinnir â hyn yn yr adroddiadau arolygu.
- I ba raddau mae pob Awdurdod Lleol yn mabwysiadu arferion gorau?

## Diweddaru Blaenoriaethau AGC a Chynnydd o ran Cynllun Strategol 2020-2025

Rhoddodd Gillian Baranski ddiweddariad ar Flaenoriaethau Arolygiaeth Gofal Cymru, a gafodd eu hadolygu er mwyn ystyried pwysau cyfredol, a diweddariad cynnydd ar gyfer Cynllun Strategol 2020-2025.

Pwyntiau i'w hystyried a godwyd gan Gillian:
- Beth sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf i ddefnyddwyr gwasanaethau?
- Beth sy'n gwneud AGC yn fwy effeithlon?
- Gofynnodd Gillian hefyd i'r bwrdd beth oedd yr un peth y gallai AGC ei wneud yn well?

Cododd y bwrdd y pwyntiau canlynol:
- Mae angen i AGC nodi profiad defnyddwyr gwasanaethau yn gyson.
- Cynnal cysondeb o safbwynt y Darparwr – Mae'r Arolygwyr yn amrywio.

A allai AGC wneud mwy mewn perthynas â chadw gofal plant a chwarae a chefnogi canfyddiadau o'r proffesiwn gofal plant.

**Cam gweithredu** – Rhannu Cyflwyniadau PowerPoint ag Aelodau'r Bwrdd

## Lleisiau o'r Sector

Yn dilyn digwyddiad i ddarparwyr, mae menter wrthi'n cael ei datblygu gan Gofal Cymdeithasol Cymru i gefnogi cymuned ddigidol o Unigolion Cyfrifol a gwnaed cais i'r aelodau rannu gwybodaeth briodol amdani â chymaint o rwydweithiau perthnasol â phosibl.

Byddai'n ddefnyddiol hefyd rhannu arolwg yr hoffai Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru i bobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol ei gwblhau er mwyn helpu ei waith (sy'n canolbwyntio'n gynyddol ar ofal cymdeithasol yn ogystal ag iechyd).
Yr Hwb Gwyddorau Bywyd yn lansio arolwg rhanddeilaid – Technoleg Iechyd Cymru

Soniodd yr aelodau am yr effaith y mae'r argyfwng costau byw yn ei chael ar sectorau sydd eisoes yn fregus sy'n cael eu rheoleiddio a'u harolygu gan AGC.

Mae CIW wedi cael anawsterau wrth recriwtio.

Nodwyd yr angen am drefniadau gweithio di-dor rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae gofal cymdeithasol yn effeithio ar wasanaethau iechyd. Ond mae'n darparu gwasanaeth gwerthfawr iawn yn ei rinwedd ei hun nad yw bob amser yn cael ei gydnabod na'i werthfawrogi gan y cyhoedd – hyd nes bod angen iddynt ddefnyddio gofal cymdeithasol eu hunain.

**Cam gweithredu –** Cytunodd Gillian i ddosbarthu erthygl o'r Times.
How NHS Somerset is revolutionising the way we care for our elderly | News | The Times

**Cyfarfod nesaf ddydd Iau, 8 Mehefin 2023**